**Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

29 Tachwedd 2012

Annwyl Syr / Madam

**Ymgynghoriad ar y *Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)***

Fel rhan o'i ystyriaethau Cyfnod 1, mae Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y ***Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru).***

**Beth yw Bil?**

O dan Ran 4 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, gall y Cynulliad Cenedlaethol basio cyfreithiau mewn meysydd lle mae ganddo'r pwerau deddfwriaethol i wneud hynny.

Pan gaiff cynnig ar gyfer cyfraith newydd ei gyflwyno yn y Cynulliad Cenedlaethol, caiff ei alw'n 'Fil'.

Mae pedwar cyfnod i'r broses o ystyried Bil. Yng Nghyfnod 1, bydd y pwyllgor yn ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil (sy'n cynnwys cymryd tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar gan rai sydd â diddordeb a chan randdeiliaid); ac mae Cyfnod 1 hefyd yn cynnwys cael cytundeb y Cynulliad i'r egwyddorion cyffredinol hynny.

Pan gaiff Bil ei basio gan y Cynulliad Cenedlaethol ac ar ôl iddo gael Cydsyniad Brenhinol, mae'n dod yn 'Ddeddf Cynulliad'.

**Beth y mae'r Bil hwn yn gobeithio ei gyflawni?**

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn datgan:

**Ffon / Tel: 029 2089 8147**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: pwyllgor.cclll@cymru.gov.uk**

> "Amcan cyffredinol y Bil yw sicrhau bod democratiaeth leol yn gweithredu mor effeithlon â phosibl a gwella'r broses ddemocrataidd o fewn llywodraeth leol. Bwriedir iddo sicrhau bod awdurdodau lleol yn gynrychioliadol o'u cymunedau mewn modd democrataidd, yn cael eu trefnu yn y ffordd fwyaf effeithiol ac yn cyfathrebu'n dda â'r cyhoedd. Bydd craffu lleol cadarn yn ddull effeithiol o ysgogi gwelliant mewn gwasanaethau cyhoeddus ac yn golygu y gall y cyhoedd gael mwy o hyder yn y broses ddemocrataidd."

**Beth yw rôl y Pwyllgor?**

Rôl y Pwyllgor yw ystyried egwyddorion cyffredinol y Bil a chyflwyno adroddiad arnynt. Wrth wneud hyn, mae'r Pwyllgor wedi cytuno i weithio o fewn y fframwaith a ganlyn:

I'w hystyried:

i) yr angen am Fil i gyflawni'r hyn a ganlyn:

- diwygio trefniadaeth a swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru;
- diwygiadau i Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mewn perthynas â chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a strwythur pwyllgorau archwilio awdurdodau lleol;
- darpariaethau ynghylch mynediad y cyhoedd at wybodaeth am gynghorau tref a chymuned;
- diwygiadau i Ran III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 er mwyn ei gwneud yn haws i awdurdodau lleol greu cyd-bwyllgorau safonau;
- darpariaeth ynghylch swyddogaeth Cadeirydd neu Faer prif gynghorau; ac
- addasu a chydgrynhoi'r darpariaethau cyfredol ar lywodraeth leol mewn perthynas â'r Comisiwn Ffiniau gan hybu datblygiad Llyfr Statud Cymreig.

ii) prif ddarpariaethau'r Bil ac a ydynt yn briodol i gyflawni'r amcanion a nodwyd ynddo;

iii) rhwystrau posibl rhag rhoi'r prif ddarpariaethau ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;

vi) barn rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio o dan y trefniadau newydd.

**Ffon / Tel: 029 2089 8147**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: pwyllgor.cclll@cymru.gov.uk**

## Sut y gallwch chi helpu – cwestiynau'r ymgynghoriad

Mae rhagor o fanylion am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig i'w cael ar wefan y Cynulliad yn:
http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=5052&AIID=8648

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'w gynorthwyo yn ei waith o graffu ar y Bil. Yn benodol, byddem yn croesawu eich sylwadau ar y cwestiynau a restrir yn **Atodiad 1**.

Os hoffech gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i Pwyllgor.CCLLL@cymru.gov.uk.

Fel arall, gallwch ysgrifennu at:

> Leanne Hatcher, Dirprwy Glerc y Pwyllgor, Y Swyddfa Ddeddfwriaeth, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

**Dylai unrhyw dystiolaeth gyrraedd erbyn 15 Chwefror 2013. Efallai na fydd yn bosibl ystyried unrhyw ymateb a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.**

Wrth baratoi eich cyflwyniad, cadwch y canlynol mewn cof:

- dylai eich ymateb gyfeirio at y materion sydd gerbron y Pwyllgor;
- bydd y Cynulliad Cenedlaethol fel rheol yn sicrhau bod ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus ar gael ar ei wefan, ac efallai y cânt eu gweld a'u trafod gan Aelodau'r Cynulliad mewn cyfarfodydd Pwyllgor. **Os nad ydych am i'ch ymateb na'ch enw gael eu cyhoeddi, mae'n bwysig eich bod yn nodi hynny'n glir wrth gyflwyno'r dystiolaeth;**
- nodwch ai ymateb fel unigolyn neu ar ran sefydliad yr ydych; a
- nodwch a fyddech yn barod i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor, ar 029 2089 8120, neu â Leanne Hatcher, y Dirprwy Glerc, ar 029 2089 8147.

Yn gywir



**Ann Jones AC**

**Ffon / Tel: 029 2089 8147**
**Ffacs / Fax: 029 2089 8021**
**Minicom: 029 2082 3280**

**E-bost / E-mail: pwyllgor.cclll@cymru.gov.uk**

Atodiad 1

# Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)

## Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Fel rhan o'i ystyriaethau Cyfnod 1, mae **Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol** Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn galw am dystiolaeth ar egwyddorion cyffredinol y ***Bil Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru)***.

Byddem yn ddiolchgar pe gallech anfon y ffurflen hon at Gynulliad Cenedlaethol Cymru erbyn 31 Ionawr 2013. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor, ar 029 2089 8120, neu â Leanne Hatcher, y Dirprwy Glerc, ar 029 2089 8147.

**Dylid anfon ymatebion i:**

Pwyllgor.CCLLL@cymru.gov.uk

Neu drwy'r post:
Leanne Hatcher
Y Swyddfa Ddeddfwriaeth
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

Cyfeiriad e-bost:

Rhif Ffôn:

Eich cyfeiriad:

### Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol

| Cwestiwn 1: A oes angen Bil i wneud newidiadau i gyfansoddiad a swyddogaethau'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru ("y Comisiwn") ac i wneud amrywiol ddarpariaethau mewn perthynas â llywodraeth leol? | | | |
|---|---|---|---|
| Oes | ☐ | Nac oes | ☐ |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 2: A ydych o'r farn y bydd y Bil yn gwella’r dull o gyflawni rolau a swyddogaethau statudol y Comisiwn? (paragraff 3.1 o'r Memorandwm Esboniadol) | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 3: A ydych o'r farn bod y newidiadau sy'n cael eu gwneud i'r Comisiwn yn briodol? (Rhan 2 y Bil) | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ |
| | | | |

**Trefniadau Llywodraeth Leol**

| Cwestiwn 4: A ydych o'r farn bod y darpariaethau mewn perthynas â gweithdrefnau ar gyfer adolygiadau llywodraeth leol yn briodol? (Pennod 4 a 5) | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 5: A ydych o'r farn bod y trefniadau ar gyfer llywodraeth leol mewn perthynas â:<br>• Dyletswyddau'r Comisiwn<br>• Dyletswyddau prif gynghorau<br>yn briodol? (Pennod 1) | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

| Cwestiwn 6: A ydych o'r farn bod y trefniadau ar gyfer llywodraeth leol mewn perthynas â:<br>• Pwyllgorau Gwasanaethau Democrataidd (Adran 56)<br>• Pwyllgorau Archwilio (Adran 57)<br>• Pwyllgorau Safonau (Adran 63)<br>yn briodol? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

**Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

| Cwestiwn 7: A ydych o'r farn bod y darpariaethau mewn perthynas â Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn briodol? (Pennod 5, Adrannau 58-62) | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

**Mynediad at wybodaeth (Cynghorau Tref a Chymuned)**

| Cwestiwn 8: A ydych o'r farn bod y darpariaethau mewn perthynas â hwyluso mynediad at wybodaeth (Cynghorau Tref a Chymuned) yn briodol? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

**Cadeirio Prif Gynghorau (Cadeiryddion a Meiri Prif Gynghorau)**

| Cwestiwn 9: A ydych o'r farn bod y darpariaethau mewn perthynas â Chadeirio Prif Gynghorau (Cadeiryddion a Meiri Prif Gynghorau) yn briodol? | | | |
|---|---|---|---|
| Ydw | ☐ | Nac ydw | ☐ |
| Ymhelaethwch ar eich ateb | | | |

**Darpariaethau Cyffredinol y Bil**

| Cwestiwn 10: Beth yw'r rhwystrau posibl i roi darpariaethau'r Bil ar waith (os ydynt yn bodoli), ac a yw'r Bil yn rhoi ystyriaeth ddigonol iddynt? |
|---|
| Ymhelaethwch ar eich ateb |

| Cwestiwn 11: Beth yw goblygiadau ariannol y Bil, os ydynt yn bodoli? Wrth ateb y cwestiwn hwn, mae'n bosibl y byddwch am ystyried Rhan 2 o'r Memorandwm Esboniadol (yr Asesiad Effaith) sy'n cynnwys amcangyfrif o'r costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â rhoi'r Bil ar waith. |
|---|
| Ymhelaethwch ar eich ateb |

| Cwestiwn 12: Beth yw eich barn am y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (hynny yw, offerynnau statudol, gan gynnwys rheoliadau a gorchmynion) (adran 5 y Memorandwm Esboniadol)? |
|---|
| Ymhelaethwch ar eich ateb |

| Cwestiwn 13: A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud am rannau penodol o'r Bil? |
|---|
| |